

Crynodeb Gwirio Ansawdd

Uned Asesu a Thrin Tŷ Lafant, Ysbyty Llanfrechfa Grange

Dyddiad y gweithgarwch: 1 Rhagfyr 2020

Dyddiad cyhoeddi: 25 Mawrth 2021



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhydycar
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: AGIC@llyw.cymru
Gwefan: www.agic.org.uk

Cofnod o'r Canfyddiadau

Ein Dull Gweithredu

Cynhaliodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) wiriad ansawdd o bell o Uned Asesu a Thrin Tŷ Lafant, Ysbyty Llanfrechfa Grange, fel rhan o'i rhaglen o waith sicrwydd. Uned anabledau dysgu â saith gwely yw hon.

Mae gwiriadau ansawdd AGIC yn rhan o ddull haenog newydd o ymdrin â gwaith sicrwydd ac maent yn un o blith nifer o ffyrdd y mae'n archwilio'r ffordd y mae gwasanaethau gofal iechyd yn cyrraedd Safonau Iechyd a Gofal 2015 (a rheoliadau perthnasol eraill). Rhoddir adborth i gynrychiolwyr gwasanaethau ar ddiwedd y gwiriad ansawdd, mewn ffordd sy'n cefnogi dysgu, datblygu a gwella ar lefel weithredol a lefel strategol.

Mae Gwiriadau Ansawdd yn rhoi cipolwg ar y safonau gofal o fewn lleoliadau gofal iechyd. Cânt eu cynnal oddi ar y safle yn gyfan gwbl ac maent yn canolbwyntio ar dri maes allweddol; atal a rheoli heintiau, llywodraethu (yn enwedig yn ymwneud â staffio) a'r amgylchedd gofal. Mae'r gwaith yn canolbwyntio ar y trefniadau a roddwyd ar waith i ddiogelu'r staff a defnyddwyr y gwasanaeth rhag COVID-19, ac yn ein galluogi i roi cyngor cyflym a chefnogol ar y dull o weithredu gwasanaethau'n ddiogel yn ystod y pandemig. Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth am ein dull arolygu [yma](#).

Gwnaethom siarad â'r Uwch-nyrs a Rheolwr y Ward ar 1 Rhagfyr 2020 a roddodd wybodaeth a thystiolaeth inni am eu lleoliad. Defnyddiwyd y llinellau ymholi allweddol canlynol:

- Sut rydych yn sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel ac yn addas ar gyfer anghenion defnyddwyr y gwasanaeth ar yr adeg hon? Pa newidiadau, os o gwbl, a wnaed o ganlyniad i COVID-19 i'r canlynol:
 - Yr amgylchedd ffisegol
 - Arferion, trefniadau ar gyfer ymweliadau a chadw mewn cysylltiad ag anwyliaid
 - Rheoli ymddygiad
 - Gallu'r cleifion i fynd am dro yn y gymuned/gadael y ward dros dro, a mwynhau gweithgareddau a rhwydweithiau cymdeithasol (gan gynnwys absenoldeb ffurfiol lle mae'r Ddeddf Iechyd Meddwl yn gymwys)?
- Sut mae'r risg o haint yn cael ei hasesu a'i rheoli i gadw defnyddwyr y gwasanaeth, ymwelwyr a staff yn ddiogel?
- Sut rydych yn sicrhau bod digon o staff sydd wedi cael hyfforddiant priodol i ddiwallu anghenion defnyddwyr y gwasanaeth, gyda mynediad i weithwyr iechyd a gofal proffesiynol ehangach pan fydd angen?
- O ystyried effaith COVID-19, sut rydych yn cyflawni eich dyletswydd gofal mewn

perthynas â'r Ddeddf Iechyd Meddwl a deddfwriaeth DoLS, a sut mae hawliau defnyddwyr y gwasanaeth yn cael eu diogelu?

Yr Amgylchedd

Yn ystod y gwiriad ansawdd, gwnaethom ystyried y ffordd y mae'r gwasanaeth wedi ymateb i heriau COVID-19. Gwnaethom ystyried y ffordd y mae'r gwasanaeth wedi dylunio a rheoli'r amgylchedd gofal er mwyn ei gadw mor ddiogel â phosibl i ddefnyddwyr y gwasanaeth, staff ac ymwelwyr. Edrychwyd ar asesiadau risg diweddar, adolygiadau o ddigwyddiadau a'r defnydd o ddulliau atal yn gorfforol ac arwahanu. Hefyd, holwyd y lleoliad am y newidiadau y mae wedi'u gwneud er mwyn sicrhau bod defnyddwyr y gwasanaeth yn parhau i dderbyn y gofal a'r driniaeth i ddiwallu eu hanghenion.

Ar hyn o bryd, mae Tŷ Lafant yn Uned Asesu a Thrin Oedolion 7 ystafell wely i ddynion a merched dros 18 oed sydd ag anabledd dysgu ac anghenion iechyd ychwanegol a all ymddwyn mewn ffordd heriol iawn neu y gall fod ganddynt salwch meddwl neu gyflyrau niwrolegol. Hon yw'r ward derbyn i oedolion 18 oed a throsodd sy'n byw yn ardal Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan, gan gynnwys bwrdeistrefi Torfaen, Casnewydd, Sir Fynwy, Caerffili a Blaenau Gwent.

Mae Tŷ Lafant hefyd yn cynorthwyo pobl ag anableddau dysgu y mae angen iddynt gael eu derbyn o dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983.

Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:

Cawsom wybod bod yr uned wedi addasu ei harferion drwy gydol pandemig COVID-19. O ddechrau'r pandemig, cyflwynodd yr uned Gyfarpar Diogelu Personol (PPE) yn unol â chanllawiau Iechyd Cyhoeddus Cymru a'r bwrdd iechyd. Gall staff ddefnyddio cawod ar y safle ac mae bloc newid sy'n eu galluogi i newid eu dillad cyn dechrau eu sifft ac ar ôl iddynt orffen. Mae staff hefyd yn gwisgo sgrybs a masgiau mewn ardaloedd clinigol. Cawsom wybod bod defnyddwyr y gwasanaeth wedi derbyn hyn yn dda.

Dywedwyd wrthym fod gan yr uned ystafelloedd gwely ar wahân ar gyfer pob un o ddefnyddwyr y gwasanaeth. Fe'u lleolir ar ddau goridor, un i ddynion ac un i ferched. Mae un ystafell wely ychwanegol hefyd sy'n rhan o ardal gofal ychwanegol. Ar adeg yr arolygiad, cawsom wybod nad oedd yr ardal gofal ychwanegol yn cael ei defnyddio dros dro tra bod gwaith atgyweirio hanfodol yn mynd rhagddo. O ganlyniad, roedd y coridor 'i ddynion' yn cael ei ddefnyddio fel ardal gofal ychwanegol dros dro i gefnogi un unigolyn ag anghenion sylweddol. Yn sgil hynny, roedd y coridor 'i ferched' yn cael ei ddefnyddio dros dro ar gyfer dynion a merched. Rhoddodd y rheolwyr wybod inni fod gofynion staffio i gefnogi'r sefyllfa dros dro hon yn cael eu hadolygu'n ddyddiol. Cawsom wybod bod modd gweld yr ardaloedd hyn o'r swyddfa ac na chafwyd unrhyw ddigwyddiadau sy'n uniongyrchol gysylltiedig â'r ardaloedd i gleifion cymysg. Nid oes unrhyw gamerâu yn ystafelloedd wely'r cleifion. Fodd bynnag, mae'r staff yn arsylwi arnynt drwy'r drysau. Rhoddwyd dystiolaeth inni a oedd yn

dangos bod amllder yr arsylwadau sydd eu hangen ar gyfer defnyddwyr y gwasanaeth yn seiliedig ar eu cyflwr meddygol a'u triniaeth.

Cawsom wybod bod gan yr uned ystafell ddydd fawr â digon o le sy'n cynnwys teledu ac ardal fwyta. Mae ystafell weithgareddau lle y gall defnyddwyr y gwasanaeth ddefnyddio cyfrifiadur, gwneud gweithgareddau crefft neu chwarae gemau. Mae'r ardal fawr yn golygu bod modd cadw pellter cymdeithasol.

Mae gardd hefyd sy'n cynnwys ardal ar gyfer tyfu llysiau. Caiff defnyddwyr y gwasanaeth eu hannog i gynnal a chadw'r ardal hon fel rhan o'u therapi a'u llesiant. Mae therapydd galwedigaethol yn helpu gyda'r gweithgaredd hwn. Cawsom wybod bod asesiad risg wedi'i gynnal ar yr ardal a'r gweithgaredd tyfu llysiau a bod y staff yn sicrhau bod y cyfarpar yn cael ei gadw dan glo ar ôl iddo gael ei ddefnyddio.

Dywedwyd wrthym fod rhywfaint o waith adnewyddu, a ddechreuodd ym mis Tachwedd 2020, yn mynd rhagddi ar yr uned. Cawsom ein sicrhau nad oes gan y contractwyr fynediad uniongyrchol i'r uned a, phan fydd angen mynediad arnynt, cynhelir gwiriad o dymheredd y corff yn unol â gweithdrefnau gweithredu safonol COVID-19.

Dywedwyd wrthym fod rhaglen ymyrraeth seiliedig ar dystiolaeth Safe Wards ar waith yn Nhŷ Lafant. Nod y rhaglen yw lleihau achosion o wrthdaro a chyfyngu mewn gwasanaethau i gleifion allanol, drwy wneud mwy o ddefnydd o ddulliau gofal tosturiol a galluogi defnyddwyr y gwasanaeth i gymryd rhan. Mae'r model gofal Cymorth Ymddygiad Cadarnhaol a Gofal a Lywir gan Drawma ar waith yn yr uned hefyd.¹

Gwelsom dystiolaeth bod yr uned yn cydnabod awgrymiadau a wneir gan gleifion ac yn gweithredu arnynt. Cawsom wybod bod yr uned yn trefnu bore coffi wythnosol lle y gall holl ddefnyddwyr y gwasanaeth a staff yr uned gyfarfod, lleisio barn, trafod newyddion a gwneud ceisiadau. Rhoddodd y rheolwyr wybod inni fod y cyfarfodydd hyn o fudd i bawb ar yr uned. Gwelsom hefyd dystiolaeth o negeseuon diolch gan ddefnyddwyr y gwasanaeth ar ôl iddynt gael eu rhyddhau.

Ni chaniatawyd ymweliadau ar ddechrau'r pandemig ond cydnabuwyd y gallai hyn gael effaith negyddol ar ddefnyddwyr â chyflyrau iechyd meddwl ac anableddau dysgu. Yn unol â chanllawiau'r bwrdd iechyd, caniateir ymweliadau erbyn hyn ond rhaid iddynt gael eu trefnu ymlaen llaw. Er mwyn cyfyngu ar nifer y bobl yn yr uned a sicrhau y cynhelir pellter cymdeithasol, dim ond un ymweliad a ganiateir ar y tro. Caiff tymheredd y corff ei gymryd cyn i bobl fynd i mewn i'r uned a gofynnir i ymwelwyr wisgo cyfarpar diogelu personol. Mae ymwelwyr yn cyfarfod â defnyddwyr y gwasanaeth mewn ystafell a neilltuwyd yn arbennig ar gyfer ymwelwyr ac ni chaniateir iddynt fynd i mewn i ystafelloedd gwely'r cleifion.

¹ Mae Cymorth Ymddygiad Cadarnhaol yn fframwaith ar gyfer darparu cymorth hirdymor i bobl sydd ag anabledd dysgu a chyflyrau iechyd meddwl sy'n ymddwyn mewn ffordd heriol neu sy'n wynebu risg o ddatblygu ymddygiad o'r fath. Nod y model gofal Gofal a Lywir gan Drawma yw sicrhau diogelwch corfforol ac emosiynol unigolyn.

Cawsom wybod bod yr ystafell i ymwelwyr yn cael ei glanhau gan staff nyrsio ar ôl pob ymweliad er mwyn ei chadw'n ddiogel ac yn lân.

Nodwyd y meysydd canlynol i'w gwella:

Dywedwyd wrthym fod ymwelwyr yn gallu defnyddio cod Ymateb Cyflym (QR)² mewn perthynas â'r system monitro ac olrhain. Fodd bynnag, nid yw'r uned yn cadw unrhyw fanylion eraill. Fel rhan o weithdrefn gweithredu safonol y bwrdd iechyd ar gyfer Cadw Cofnod Profi, Olrhain, Diogelu ar gyfer y Staff, Cwsmeriaid ac Ymwelwyr yn ystod y pandemig, mae angen cwblhau llyfr ymwelwyr. Mae'n ofynnol i'r uned gydymffurfio â'r gweithdrefnau gweithredu a dylai sicrhau bod manylion pob ymwelydd yn cael eu cofnodi'n llawn a'u hadolygu gan reolwyr yn rheolaidd. Mae hyn yn sicrhau bod modd cadw cofnod cywir a chyfredol o ymweliadau, ac yn cydnabod yr angen i gydymffurfio â mesurau iechyd cyhoeddus sefydledig a hefyd ddyletswydd y bwrdd iechyd i reoli'r risg y caiff y feirws ei drosglwyddo a'r angen i ddiogelu defnyddwyr y gwasanaeth a staff.

Cawsom wybod bod cyfleusterau ensuite wedi'u lleoli mewn mannau dall ym mhob ystafell wely, a chawsom ein sicrhau nad oedd unrhyw bwyntiau clymu yn yr ardaloedd hyn. Fodd bynnag, nododd archwiliad amgylcheddol dyddiedig Tachwedd 2020 fod cyfres o risgiau clymu posibl mewn ystafelloedd gwely ac ardaloedd eraill yn yr uned lle y gall defnyddwyr y gwasanaeth gael eu gadael o bosibl heb oruchwyliaeth am gyfnodau o amser. Dangosodd y dystiolaeth fod rheolwyr yr uned wedi hysbysu'r adran Gwaith ac Ystadau a bod mesurau wedi'u cymryd i nodi camau adferol er nad oedd unrhyw amserlenni wedi'u nodi. Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd sicrhau y cytunir ar linell amser ar gyfer cymryd camau adferol.

Cawsom wybod bod gan yr uned ardd breifat sydd â ffens o'i hamgylch, gât dan glo a theledu cylch cyfyng gweithredol. Dim ond staff sy'n gwybod y cod cyfunol ar gyfer y gât. Dywedwyd wrthym fod yr ardal hon yn cael ei staffio'n briodol. Fodd bynnag, yn fwy diweddar, ceisiodd un o ddefnyddwyr y gwasanaeth ddringo'r ffens ond ni lwyddodd i ffoi. Mae'r ardal hon yn risg ddiogelwch bosibl i'r uned a defnyddwyr y gwasanaeth. Cawsom wybod nad oedd asesiad risg wedi'i gynnal o'r ardal hon ers dros dair blynedd. Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd drefnu asesiad risg o'r ardd yn Nhŷ Lafant, gan nodi unrhyw gamau sydd eu hangen i sicrhau bod yr uned a defnyddwyr y gwasanaeth yn ddiogel.

Roedd angen sicrwydd uniongyrchol mewn perthynas â'r canlynol:

Gwelsom dystiolaeth o archwiliad amgylcheddol a nododd fod cyfres o bwyntiau clymu³ yn yr uned a oedd yn peri risg i ddiogelwch cleifion. Nid oedd dyddiad ar y wybodaeth hon ac nid oedd AGIC yn gallu nodi pryd y cafodd y pwyntiau clymu eu nodi na'r amserlenni ar gyfer cymryd camau a gynlluniwyd neu gamau adferol. Felly, ni allai AGIC fod yn sicr chwaith fod systemau llywodraethu'r bwrdd iechyd yn darparu goruchwyliaeth ddigonol o'r mater hwn. Gofynnodd AGIC i'r bwrdd iechyd gymryd camau ar unwaith i ddatrys y mater hwn. Rhoddodd y bwrdd iechyd sicrwydd uniongyrchol a chadarnhaodd y byddai gwaith adferol yn cael ei

² Cod bar a llun y gellir ei sganio ar beiriant yw'r Cod QR. Mae'n casglu ac yn trosglwyddo gwybodaeth.

³ Nodwedd mewn amgylchedd y gellir ei defnyddio i glymu cortyn, rhaff neu ddeunydd arall at ddiben hongian yw pwynt clymu.

flaenoriaethu ac y byddai pob archwiliad yn cael ei ddyddio yn y dyfodol er mwyn sicrhau bod llwybr archwilio clir.

Atal a rheoli heintiau

Yn ystod y gwiriad ansawdd, gwnaethom ystyried pa mor dda y mae'r gwasanaeth yn rheoli'r risg o haint er mwyn helpu i gadw defnyddwyr y gwasanaeth, ymwelwyr a'r staff yn ddiogel. Edrychwyd ar bolisiau rheoli heintiau, cyfraddau heintio ac asesiadau risg. Gwnaethom adolygu systemau allweddol, gan gynnwys y defnydd o gyfarpar diogelu personol (PPE).

Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:

Cawsom wybod bod gan yr uned gyflenwad digonol o gyfarpar diogelu personol, a lleolir gorsaf cyfarpar diogelu personol wrth fynedfa'r staff. Lleolir cynhwysydd hylif diheintio dwylo ar y wal y tu allan i'r uned y gall staff ei ddefnyddio wrth fynd i mewn ac allan o'r uned. Caiff mynediad i fasiau a hylif diheintio dwylo ei reoli gan y staff er mwyn cadw defnyddwyr y gwasanaeth yn ddiogel. Pan fo'n ddiogel i wneud hynny, gofynnir i gleifion wisgo masgiau, yn enwedig mewn ardaloedd cymunedol fel y lolfa a'r ystafell fwyta, ac mae'r staff yn eu hannog i gadw pellter cymdeithasol. Mae pob aelod o staff yn cario hylif diheintio dwylo ym mhoced ei sgrybs ac mae sebon ar gael i gleifion er mwyn iddynt olchi eu dwylo yn rheolaidd. Mae hylif diheintio dwylo ar gael iddynt hefyd ar gais.

Cawsom wybod bod yr uned wedi rhoi rheol dau fetr ar waith ar gyfer staff a chedwir at y rheol hon yn ystod sifftiau ac wrth newid sifftiau.

Rhoddwyd tystiolaeth inni i gadarnhau bod y bwrdd iechyd wedi cyflwyno canllawiau ar gyfer rheoli COVID-19 mewn lleoliadau gofal iechyd a'r weithdrefn ar gyfer rheoli'r broses o dderbyn cleifion mewnol/defnyddwyr gwasanaethau ac achosion posibl ac achosion a gadarnhawyd o COVID-19. Cawsom wybod bod gan yr uned gyyfleusterau digonol ar y safle i ynysu defnyddwyr y gwasanaeth pe bai angen.

Dywedwyd wrthym fod y staff yn cwblhau asesiadau a ddogfennir cyn y sifft sy'n cynnwys cofnodi tymheredd y corff ac ymateb i gwestiynau sy'n ymwneud ag unrhyw symptomau sydd ganddyn nhw neu aelodau o'u cartref. Caiff tymheredd defnyddwyr y gwasanaeth ei gymryd bob dydd, a chaiff y wybodaeth ei dogfennu yn nodiadau'r claf a'i chydlofnodi gan uwch-aelod o'r staff. Caiff adroddiad o'r sefyllfa o ran COVID-19 ei baratoi bob dydd ar gyfer yr uned a'i adolygu gan uwch-reolwyr ar ddyletswydd. Ni chaiff y staff eu profi'n rheolaidd am COVID-19 ond, os byddant yn dangos symptomau, gallant gael prawf drwy'r bwrdd iechyd. Rhoddir y canlyniadau o fewn 24 awr. Cawsom wybod mai dim ond un claf ac un aelod o staff oedd wedi cael canlyniad prawf positif ar gyfer y feirws ers dechrau'r pandemig ac yr

aethpwyd ati i reoli'r achosion hynny yn unol â chanllawiau'r bwrdd iechyd.

Rhoddwyd tystiolaeth inni o archwiliad rheoli heintiau, dyddiedig Tachwedd 2020. Nodwyd bod yr archwiliadau hyn yn cael eu cwblhau yn wythnosol. Nododd yr archwiliad fod digon o gyfarpar diogelu personol ar gael at y diben a bod staff yr uned wedi cwblhau'r holl amserlenni glanhau angenrheidiol. Nodwyd hefyd fod y staff yn cydymffurfio â'r gofyniad i gynnal safonau hylendid dwylo a gwisgo dilledyn hyd at y penelin yn unig. Nododd yr archwiliad hefyd fod yr amgylchedd, y cyfarpar a matresi defnyddwyr y gwasanaeth yn lân.

Nodwyd y meysydd canlynol i'w gwella:

Rhoddwyd copi inni o weithdrefn y bwrdd iechyd ar gyfer Ymateb i COVID-18, dyddiedig Mawrth 2020 - Mai 2020. Mae AGIC yn argymhell y dylai'r bwrdd iechyd edrych ar gynnwys y weithdrefn hon a diweddarau ei weithdrefnau yn unol â hynny.

Llywodraethu

Fel rhan o'r safon hon, ystyriodd AGIC y ffordd y mae'r lleoliad yn sicrhau bod digon o staff ar gael sydd wedi cael hyfforddiant priodol i ddiwallu anghenion defnyddwyr y gwasanaeth, a'u bod yn gallu cysylltu â gweithwyr iechyd meddwl proffesiynol eraill pan fydd angen.

Hefyd, holwyd y lleoliad am y ffordd y mae, yn sgil effaith COVID-19, yn parhau i gyflawni ei ddyletswydd gofal o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl ac o ran diogelu hawliau defnyddwyr y gwasanaeth.

Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:

Cawsom wybod bod yr uned yn cael ei chefnogi gan gyfuniad o nyrsys cofrestredig, ymarferwyr cyswllt, gweithwyr cymorth clinigol, therapyddion galwedigaethol, lleferydd ac iaith a drama, arbenigwyr clinigol ymddygiad a seicolegwyr. Caiff defnyddwyr y gwasanaeth eu hasesu, eu hadolygu a'u trin gan seiciatryddion ymgynghorol hefyd ac mae meddygon iau yn ymweld â'r uned bob dydd.

Rhoddodd y rheolwyr wybod inni fod yr uned wedi llwyddo i benodi pedair nyrs gofrestrredig i lenwi swyddi gwag. Roedd nifer o swyddi yn wag o hyd a byddent yn cael eu hail-hysbysebu. Dywedodd y rheolwyr wrthym fod y gyfarwyddiaeth iechyd meddwl ac anableddau dysgu yn defnyddio olwyn recriwtio chwemisol i recriwtio staff banc. Mae'r uned yn defnyddio nyrsys banc i lenwi bylchau yn rotâu'r staff ac, yn y dyfodol, mae hefyd yn bwriadu defnyddio nyrsys sy'n cymryd rhan mewn rhaglen gylchdro ar draws y gyfarwyddiaeth. Cawsom wybod bod yr uned wedi parhau i gyflogi aelod rheolaidd o staff asiantaeth a oedd yn gyfarwydd â'r uned, a oedd yn gymwys mewn PBM ac a fyddai wrth law i roi cymorth ychwanegol yn ystod ail don y pandemig COVID-19. Dywedwyd wrthym fod pob nyrs newydd gymhwyso a gyflogir ar yr uned yn cael chwe mis o oruchwyliad er mwyn hwyluso addysg a chymorth, hyrwyddo myfyrio clinigol a gwella cyfraddau cadw.

Cawsom wybod, a rhoddwyd tystiolaeth inni, fod dwy nyrs gofrestredig yn gweithio ar bob sifft dydd a'u bod yn cael eu cynorthwyo gan weithwyr cymorth gofal iechyd. Yn fwy diweddar, mae'r uned wedi cynyddu'r lefelau staffio yn unol ag aciwtedd y cleifion⁴. Ar hyn o bryd, un nyrs gofrestredig sy'n gweithio sifftiau nos yn yr uned, ac fe'i cynorthwyr gan dri gweithiwr cymorth gofal iechyd. Mesur byrdymor yw hwn tra bod y broses recriwtio yn mynd rhagddi a thra bod yr uned yn aros i staff a secondiwyd ddychwelyd. Cawsom ein sicrhau bod y trefniant hwn yn cael ei adolygu'n barhaus ac yn cael ei ystyried mewn trafodaethau amlddisgyblaethol. Dywedodd y rheolwyr wrthym fod staff yn gallu gofyn am gymorth a chynghor gan yr is-adran iechyd meddwl ac anableddau dysgu a'r uwch-nyrs ar ddyletswydd.

Cawsom wybod bod y bwrdd iechyd yn darparu gwasanaeth llesiant ar gyfer y staff a bod yr uned yn cynnal gwiriadau lles goruchwyliol misol ar gyfer y staff. Mae'r staff yn gwybod y gallant siarad â seicolegydd yr uned yn gyfrinachol os bydd ganddynt unrhyw bryderon am eu llesiant. Mae adolygiad o lesiant staff yn cael ei gynnal ar ddiwedd pob sifft hefyd. Cawsom wybod bod yr uwch-nyrs a rheolwr y ward yn ymweld yn rheolaidd ac yn gweithio ar y ward.

Dywedwyd wrthym fod yr uned yn cynnal cyfarfodydd tîm amlddisgyblaethol wythnosol ar hyn o bryd ar Microsoft Teams. Mae hyn yn golygu bod modd cadw pellter cymdeithasol a lleihau'r posibilrwydd y caiff y feirws ei drosglwyddo. Ymhlith y rhai sy'n mynychu'r cyfarfodydd mae defnyddiwr y gwasanaeth, os yw'n bosibl, yr eiriolwr iechyd meddwl annibynnol ac aelodau o'r tîm anableddau dysgu cymunedol gan gynnwys nyrs gymunedol a gweithiwr cymdeithasol, ynghyd â'r teulu a gofalwyr. Cyfyngir y cyfarfodydd hyn i uchafswm o 50 munud.

Rhoddwyd tystiolaeth inni a oedd yn dangos bod yr uned wedi rhoi gwybod am 11 o ddigwyddiadau yn ystod y cyfnod rhwng 1 Mai a 31 Hydref 2020 a'r bod wedi cael eu cau. Rhoddwyd gwybod am y digwyddiadau hyn ar Datix, y system cofnodi digwyddiadau electronig a ddefnyddir gan y bwrdd iechyd. Roedd y digwyddiadau hyn wedi achosi niwed i ddefnyddwyr y gwasanaeth a'r staff neu roedd posibilrwydd y gallent fod wedi achosi niwed iddynt. Rhoddwyd enghreifftiau inni a oedd yn nodi sut yr aethpwyd ati i adolygu'r digwyddiadau a chynnal asesiadau risg a'r camau a gymerwyd er mwyn dysgu o gamgymeriadau a bod defnyddwyr y gwasanaeth a'r staff yn ddiogel. Mae'r uned yn defnyddio dulliau cadarnhaol o reoli ymddygiad pan fydd defnyddwyr y gwasanaeth yn ymddwyn yn heriol. Dim ond fel dewis olaf y defnyddir dulliau atal yn gorfforol. Mae'r uned yn cofnodi pob achos o ddefnyddio dulliau atal yn gorfforol.

Nodwyd y meysydd canlynol i'w gwella:

Yn unol â gofynion y bwrdd iechyd, roedd cyfradd cydymffurfiaeth yr uned o ran hyfforddiant gorfodol i'r staff yn uwch nag 85% o ran diogelwch tân, iechyd, diogelwch a lles, dadebru a thrais ac ymddygiad ymosodol. Fodd bynnag, ni chyrhaeddwyd y lefel gydymffurfiaeth ofynnol yn y modiwl hyfforddiant ar gyfer symud a thrin gyda'r cofnodion yn nodi lefel gydymffurfiaeth o 77%. Ni chafwyd tystiolaeth ychwaith o gydymffurfiaeth â hyfforddiant gorfodol ar gyfer rheoli heintiau, diogelu oedolion, y Ddeddf Galluedd Meddyliol a Threfniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid. Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd roi tystiolaeth i AGIC sy'n cadarnhau bod y

⁴ Nod staffio seiliedig ar aciwtedd yw rheoleiddio nifer y staff sy'n gweithio sifft yn unol ag anghenion y cleifion.

staff wedi cael hyfforddiant digonol yn y meysydd hyn a bod cydymffurfiaeth yn cael ei chofnodi a'i hadolygu'n swyddogol gan y rheolwyr.

Cadarnhaodd y rheolwyr fod defnyddwyr y gwasanaeth yn cael eu hatgyfeirio at yr uned fel arfer gan dimau anableddau dysgu cymunedol yn hytrach na meddyg teulu. Ar hyn o bryd, mae'r uned yn cynnig archwiliad iechyd corfforol llawn i unigolion sy'n cael eu derbyn i'r uned. Fodd bynnag, gallant wrthod y cynnig hwnnw. Cadarnhaodd y rheolwyr nad ydynt yn gwneud cais am wybodaeth sy'n ymwneud ag archwiliad iechyd blynyddol defnyddiwr y gwasanaeth gan fod y wybodaeth hon yn cael ei chadw gan ei feddyg teulu. Fodd bynnag, roedd y rheolwyr yn awyddus i roi gwybod i ni fod y bwrdd iechyd wedi bod yn ariannu cynllun peilot sy'n galluogi tîm annibynnol o nyrsys cyswllt gofal sylfaenol anableddau dysgu i weithio gyda meddygon teulu i roi archwiliadau iechyd blynyddol i bobl ag anableddau dysgu. Os bydd yr unigolyn yn cydsynio, gall y wybodaeth yn yr archwiliad iechyd gael ei rhannu â darparwyr gofal iechyd eraill. Dylai'r bwrdd iechyd ystyried y buddiannau sydd ynghlwm wrth wneud cais am y wybodaeth a geir mewn archwiliadau iechyd blynyddol gofal sylfaenol er mwyn cefnogi iechyd a llesiant cyffredinol defnyddwyr y gwasanaeth.

Cynllun gwella

Lleoliad: Uned Asesu a Thrin Tŷ Lafant

Gwasanaeth: Anabledau Dysgu

Dyddiad y gweithgarwch: 1 Rhagfyr 2020

Mae'r tabl isod yn cynnwys gwelliannau a nodwyd yn ystod Gwiriad Ansawdd Haen 1, lle rydym yn ei gwneud yn ofynnol i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Noder, disgwylir i bob cam gweithredu gael ei gwblhau o fewn tri mis i'r Gwiriad Ansawdd a dylid cyflwyno fersiwn derfynol o'r Cynllun Gwella drwy Objective Connect ar ôl iddo gael ei gwblhau.

Rhif Cyf.	Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/Rheoliad	Cam Gweithredu'r Gwasanaeth	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
1	Dywedwyd wrthym fod ymwelwyr yn gallu defnyddio cod Ymateb Cyflym (QR) ⁵ mewn perthynas â'r system monitro ac olrhain. Fodd bynnag, nid yw'r uned yn cadw unrhyw fanylion eraill. Fel rhan o weithdrefn gweithredu safonol y bwrdd iechyd ar gyfer Cadw Cofnod Profi, Olrhain, Diogelu ar gyfer y staff, cwsmeriaid ac ymwelwyr yn ystod y pandemig, mae angen cwblhau llyfr ymwelwyr. Mae'n ofynnol i'r uned gydymffurfio â'r gweithdrefnau gweithredu a dylai sicrhau bod manylion pob ymwelydd yn cael eu cofnodi'n llawn a'u hadolygu gan reolwyr yn rheolaidd. Mae hyn yn sicrhau bod modd cadw cofnod cywir a chyfredol o ymweliadau, ac yn cydnabod yr angen i	Safon 2.1 Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch	Mae'r Uned wedi rhoi Gweithdrefn Gweithredu Safonol y Bwrdd Iechyd ar waith erbyn hyn mewn perthynas â Chadw Cofnodion ar gyfer Ymwelwyr. Mae'n ofynnol i ymwelwyr â'r Uned gwblhau'r ffurflen angenrheidiol gyda'r manylion perthnasol. Caiff y ffurflenni hyn eu gwirio'n rheolaidd a cheir gwared arnynt ar ôl 21 diwrnod.	Rheolwr yr Uned	Cwblhawyd

⁵ Cod bar a llun y gellir ei sganio ar beiriant yw'r Cod QR. Mae'n casglu ac yn trosglwyddo gwybodaeth.

Rhif Cyf.	Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/Rheoliad	Cam Gweithredu'r Gwasanaeth	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
	gydymffurfio â mesurau iechyd cyhoeddus sefydledig a hefyd ddyletswydd y bwrdd iechyd i reoli'r risg y caiff y feirws ei drosglwyddo a'r angen i ddiogelu defnyddwyr y gwasanaeth a staff.				
2	Cawsom wybod bod cyfleusterau ensuite wedi'u lleoli mewn mannau dall ym mhob ystafell wely. Fodd bynnag, cawsom ein sicrhau nad oedd unrhyw bwyntiau clymu yn yr ardaloedd hyn. Fodd bynnag, nododd archwiliad amgylcheddol dyddiedig Tachwedd 2020 fod cyfres o risgiau clymu posibl mewn ystafelloedd gwely ac ardaloedd eraill yn yr uned lle y gall defnyddwyr y gwasanaeth gael eu gadael o bosibl heb oruchwyliaeth am gyfnodau o amser. Dangosodd y dystiolaeth fod rheolwyr yr uned wedi hysbysu'r adran Gwaith ac Ystadau a bod mesurau wedi'u cymryd i nodi camau adferol er nad oedd unrhyw amserlenni wedi'u nodi. Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd sicrhau y cytunir ar linell amser ar gyfer cymryd camau adferol.	Safon 2.1 Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch Safon 2.7 Diogelu Oedolion sy'n wynebu Risg Safon 3.1 Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol yn Glinigol	Mae'r Asesiad Risg o ran Pwyntiau Clymu ar gyfer yr Uned wedi'i adolygu a'i ddiweddarau'n briodol ac mae camau wedi'u cymryd i fynd i'r afael â nifer o'r risgiau a nodwyd. Dylid mynd i'r afael â'r risgiau sy'n weddill erbyn diwedd mis Mehefin 2021 (yn dibynnu ar yr amseroedd arwain ar gyfer dosbarthu'r cyfarpar angenrheidiol). Mae'r Bwrdd Iechyd yn falch o gadarnhau bod y gwaith o osod drws ffrynt newydd wedi'i gwblhau.	Uwch-nyrs / Rheolwr Gwella Gwasanaethau	30 Mehefin 2021
3	Cawsom wybod bod gan yr uned ardd breifat sydd â ffens o'i hamgylch, gât dan glo a theledu cylch cyfyng gweithredol. Dim ond staff sy'n gwybod y cod cyfunol ar gyfer y gât. Dywedwyd wrthym fod yr ardal hon yn cael ei staffio'n briodol. Fodd bynnag, yn fwy diweddar, ceisiodd un o ddefnyddwyr y gwasanaeth ddringo'r ffens ond ni lwyddodd i ffoi. Mae'r ardal hon yn risg i ddiogelwch yr uned a defnyddwyr y gwasanaeth. Cawsom wybod nad oedd asesiad risg wedi'i gynnal o'r ardal hon ers dros dair blynedd. Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd drefnu asesiad risg o'r ardd yn Nhŷ Lafant, gan	Safon 2.1 Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch Safon 2.7 Diogelu Oedolion sy'n wynebu Risg Safon 3.1 Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol yn Glinigol	Mae asesiad risg o'r ardd wedi'i gwblhau erbyn hyn ac mae camau adferol yn cael eu cymryd. Mae proses wedi'i rhoi ar waith hefyd i sicrhau bod yr asesiad risg yn cael ei adolygu o leiaf bob 3 mis neu'n gynharach os bydd angen. DS gweler y sylwadau yn yr adroddiad ar gywirdeb ffeithiol	Rheolwr yr Uned	Cwblhawyd

Rhif Cyf.	Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/Rheoliad	Cam Gweithredu'r Gwasanaeth	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
	nodi unrhyw gamau sydd eu hangen i sicrhau bod yr uned a defnyddwyr y gwasanaeth yn ddiogel.				
4	Rhoddwyd copi i ni o weithdrefn y bwrdd iechyd ar gyfer Ymateb i COVID-19, dyddiedig Mawrth 2020 - Mai 2020. Mae AGIC yn argymhell y dylai'r bwrdd iechyd edrych ar gynnwys y weithdrefn hon a diweddarau ei weithdrefnau yn unol â hynny.	Safon 2.1 Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch Safon 3.4 Llywodraethu Gwybodaeth a Thechnoleg Cyfathrebu	Mae'r Bwrdd Iechyd wedi diweddarau ei weithdrefn ar gyfer Ymateb i COVID-19 erbyn hyn.	Tîm Corfforaethol	Cwblhawyd

Rhif Cyf.	Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/Rheoliad	Cam Gweithredu'r Gwasanaeth	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
5	Yn unol â gofynion y bwrdd iechyd, roedd cyfradd cydymffurfiaeth yr uned o ran hyfforddiant gorfodol i'r staff dros 85% o ran diogelwch tân, iechyd, diogelwch a lles, dadebru a thrais ac ymddygiad ymosodol. Fodd bynnag, ni chyrhaeddwyd y lefel gydymffurfiaeth ofynnol yn y modiwl hyfforddiant ar gyfer symud a thrin gyda'r cofnodion yn nodi lefel gydymffurfiaeth o 77%. Ni chafwyd tystiolaeth ychwaith o gydymffurfiaeth â hyfforddiant gorfodol ar gyfer rheoli heintiau, diogelu oedolion, y Ddeddf Galluedd Meddyliol a Threfniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid. Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd roi tystiolaeth i AGIC sy'n cadarnhau bod y staff wedi cael hyfforddiant digonol yn y meysydd hyn a bod cydymffurfiaeth yn cael ei chofnodi a'i hadolygu'n swyddogol gan y rheolwyr.	Safon 7.1 Y Gweithlu	Gall y gyfarwyddiaeth Anableddau Dysgu gadarnhau mai'r lefelau cydymffurfiaeth â hyfforddiant gorfodol ar gyfer rheoli heintiau, diogelu (oedolion), y Ddeddf Galluedd Meddyliol ac Amddifadu o Ryddid (DoLS) ar hyn o bryd yw: Rheoli Heintiau - 83.33% Diogelu (oedolion) - 83.33% Deddf Galluedd Meddyliol - 46.42% DoLS - 33.33% Bydd y gyfarwyddiaeth yn sicrhau bod pob aelod o staff yn ymgymryd â'r hyfforddiant gofynnol er mwyn sicrhau bod cydymffurfiaeth â phob maes hyfforddi yn codi i'r 85+% sy'n ofynnol. Caiff cydymffurfiaeth â hyfforddiant yn y gyfarwyddiaeth ei hadolygu gan y tîm rheoli yn rheolaidd.	Rheolwr yr Uned	Diwedd mis Mai 2021

Rhif Cyf.	Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/Rheoliad	Cam Gweithredu'r Gwasanaeth	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
6	Cadarnhaodd y rheolwyr fod defnyddwyr y gwasanaeth yn cael eu hatgyfeirio at yr uned fel arfer gan dimau anableddau dysgu cymunedol yn hytrach na meddyg teulu. Ar hyn o bryd, mae'r uned yn cynnig archwiliad iechyd corfforol llawn i unigolion sy'n cael eu derbyn i'r uned. Fodd bynnag, gallant wrthod y cynnig hwnnw. Cadarnhaodd y rheolwyr nad ydynt yn gwneud cais am wybodaeth sy'n ymwneud ag archwiliad iechyd blynyddol defnyddiwr y gwasanaeth gan fod y wybodaeth hon yn cael ei chadw gan ei feddyg teulu. Fodd bynnag, roedd y rheolwyr yn awyddus i roi gwybod i ni fod y bwrdd iechyd wedi bod yn ariannu cynllun peilot sy'n galluogi tîm annibynnol o nyrsys cyswllt gofal sylfaenol anableddau dysgu i weithio gyda meddygon teulu i roi archwiliadau iechyd blynyddol i bobl ag anableddau dysgu. Os bydd yr unigolyn yn cydsynio, gall y wybodaeth yn yr archwiliad iechyd gael ei rhannu â darparwyr gofal iechyd eraill. Dylai'r bwrdd iechyd ystyried y buddiannau sydd ynghlwm wrth wneud cais am y wybodaeth a geir mewn archwiliadau iechyd blynyddol gofal sylfaenol er mwyn cefnogi iechyd a llesiant cyffredinol defnyddwyr y gwasanaeth.	Safon 1.1 Hybu, Diogelu a Gwella Iechyd Safon 2.7 Diogelu Oedolion sy'n wynebu Risg Safon 4.2 Gwybodaeth i Gleifion	Mae'r gyfarwyddiaeth Anableddau Dysgu wedi penderfynu y byddai'n ddefnyddiol cael gwybodaeth am iechyd a llesiant cyffredinol unigolyn pan gaiff ei dderbyn. Felly, bydd yn mynd ati i ddiweddarau Llwybr Gofal yr Uned i nodi y bydd staff yn ceisio cadarnhad, pan gaiff unigolyn ei dderbyn, ynghylch a yw wedi cael archwiliad iechyd blynyddol. Os ydyw, bydd yn gofyn am gopi o gynllun gweithredu iechyd cysylltiedig yr unigolyn. Pan gaiff unigolyn ei ryddhau, bydd yr Uned yn sicrhau bod ganddo 'Basbort Iechyd Unwaith i Gymru' a'i fod wedi'i godio'n gywir gyda'r meddyg teulu er mwyn sicrhau ei fod yn cael archwiliad iechyd blynyddol yn y dyfodol. Bydd y Gyfarwyddiaeth hefyd yn sicrhau bod y Weithfan Glinigol yn cael ei fflagio'n briodol er mwyn nodi bod gan yr unigolyn anabledd dysgu.	Rheolwr yr Uned / Pennaeth Gwasanaethau Seicolegol	Diwedd mis Ebrill 2021

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sy'n bennaf cyfrifol ac atebol am sicrhau y caiff y cynllun gwella ei roi ar waith.

Enw: Michelle Forkings, Prif Nyrs Ranbarthol/Cyfarwyddwr Cyswllt Nyrsio, Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu
Dyddiad: 25.02.21